

SBAENEG TGAU

TGAU Sbaeneg

Pryd gaiff ei gyflwyno: Un prynhawn yr wythnos dros ddwy flynedd (4.30-6.30pm)
Teitl y Cymhwyster: TGAU Sbaeneg
Corff Dyfarnu: CBAC

Cyflwyniad i'r pwnc

Dyma gwrs dwy flynedd sy'n addas ar gyfer dechreuwyr brwd, yn enwedig os ydynt yn astudio iaith dramor arall. Mae cymwysterau ieithoedd modern, yn enwedig Sbaeneg, yn cael eu gwerthfawrogi'n gynyddol gan gyflogwyr a phrifysgolion y Grŵp Russell. Mae'r cwrs hwn yn sail ardderchog i symud ymlaen i astudio Sbaeneg ar lefel UG/Safon Uwch.

Cynnwys y Cwrs:

3 thema eang ar gyfer y rhaglen 2 flynedd 2025 ymlaen:

Hamdden a Llesiant

- Perthnasau
- Cyfryngau cymdeithasol/technoleg
- Arferion dyddiol
- Iechyd a ffitrwydd
- Adloniant a hamdden

Teithio

- Sbaen/gwyliau/diwylliant
- Cyfarwyddiadau, cludiant a gwyliau

Astudio a Gwaith

- Bywyd ysgol/ coleg ac astudiaethau
- Sgiliau a nodweddion
- Cynlluniau ôl-16/gyrfaoedd

Asesu

Arholiad.

Bydd y myfyrwyr yn cael eu cofrestru ar gyfer y Sylfaen neu'r Haen Uwch yn seiliedig ar eu perfformiad yn ystod y rhaglen 2 flynedd.

Pwysoliadau asesu:

| | | |
|--------|------------|-----|
| Uned 1 | Siarad | 30% |
| Uned 2 | Gwrando | 15% |
| Uned 3 | Darllen | 15% |
| Uned 4 | Ysgrifennu | 40% |

Cwrs Cyfnos yw hwn a gynhelir rhwng 4.30 a 6.30pm